OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1314 (Cy.139)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*11 Mai 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 22(1) a (2)(d) ac adran 118(7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 31 Mai 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002

2. Yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**2**) (dehongli), yn y diffiniad o "proffesiynolyn gofal iechyd", yn lle ", yn seicotherapydd plant neu'n therapydd lleferydd" rhowch "neu'n seicotherapydd plant ".

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol (*gweler* y diffiniad o "rheoliadau" yn adran 121(1) o Ddeddf 2000). Mae "Gweinidog priodol" wedi'i ddiffinio yn adran 121(1) fel y Cynulliad o ran Cymru, ac fel yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae "Cynulliad" wedi'i ddiffinio yn adran 5(b) fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) O.S. 2002/324 (Cy.37), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2622 (Cy.254), O.S. 2002/2935 (Cy.277), O.S. 2003/947 (Cy.128) ac O.S. 2003/1004 (Cy.144).